**Beirniadaeth Cystadleuaeth 389 - Cyfansoddi Golygfa Agoriadol o Ddrama**

**Beirniad: Bedwyr Rees**

Roeddwn i wedi gobeithio y byddai hon yn gystadleuaeth atyniadol gan mai dim ond gofyn am olygfa agoriadol drama oedd hi, ond siom oedd darganfod mai dim ond un ymgeisydd oedd wedi mentro.

Mae ‘Delio â’r Storm’ gan Dulas yn agor mewn cegin fferm llawn annibendod, sydd yn ddrych o feddwl Cerys, y prif gymeriad. Cawn ein hunain fel cynulleidfa ynghanol sefyllfa sydd yn druenus o gyffredin mewn cymunedau gwledig. Mae Cerys yn ceisio dod i ddygymod â marwolaeth ei brawd pan gaiff ymweliad gan y milfeddyg, Megan. Ceir yma enghreifftiau o ddawn dweud amlwg gan Dulas, gyda darnau o fynegiant del iawn a phortread o wacter dryslyd y sefyllfa. Ar ddechrau’r olygfa, mae Cerys yn amddiffynol a phigog ynghanol ei galar, ond erbyn y diwedd, mae hi’n ymddiried mwy yn Megan ac yn ymddangos fel petai’n barod i geisio brwydro ymlaen i ail-adeiladu ei bywyd.

Y gwendid i mi ydy fod y gwaith yn darllen bron fel stori fer, gyda’r sefyllfa yn dod i fwcwl gweddol daclus yn hytrach na’i fod yn olygfa sydd yn cosi brwdfrydedd a gofyn cwestiynau ar ddechrau drama. Serch hynny, mae gofynion y gystadleuaeth yn weddol heriol yn hynny o beth, gan ei fod yn naturiol i awdur ifanc fod isio ymestyn adenydd rhywfaint i arddangos ei grefft. Felly fel cydnabyddiaeth o addewid fel awdur, rydw i’n dyfarnu’r wobr i Dulas, ac yn eu hannog i ddal ati i finiogi eu crefft.